



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR
26 CHWEFROR 2020

Adroddiad gan: Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Pwnc: Categoriaddio Cenedlaethol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am y broses Categoriaddio Cenedlaethol.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r broses gategoriaddio yn un barhaus drwy gydol tymor y gwanwyn, yr haf a'r hydref ac fe'i chofnodir ar G6.

2.2 Trafodir gategoriaddio gydol y flwyddyn â chynrychiolwyr AauLL yn y Byrddau Ansawdd Sirol a gynhelir bob pythefnos.

2.3 Nod y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion yw darparu strwythur clir i adolygu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio. Mae'n rhoi ystyriaeth i ba mor dda y caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen arni i berfformio'n well.

2.4 Mae'r system yn dangos pa ysgolion y mae arnynt angen y gefnogaeth a'r arweiniad mwyaf i wella. Mae hefyd yn dangos pa ysgolion sy'n perfformio'n dda ond a allai wneud hyd yn oed yn well a pha ysgolion sydd eisoes yn effeithiol iawn ac a allai helpu ysgolion eraill i berfformio'n well.

2.5 Caiff pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig eu rhoi mewn un o bedwar categori lliw mewn perthynas â chefnogaeth. Bydd pob ysgol yn derbyn rhaglen gefnogaeth wedi'i theilwra ar sail y categorïau hyn.

2.6 Nid labelu ysgolion na chreu tablau cynghrair yw nod y system. Ei hamcan yn hytrach yw helpu ysgolion i nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu cynnydd a'u lefelau cyflawni, a pha feysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn datblygu.

3.0 Materion i'w hystyried

- 3.1 Dadansoddir y categoraiddio yn llawn a'r grynodeb rhanbarthol yn Atodiad 1 – Adroddiad GwE ar y broses Categoriaddio Cenedlaethol.

3.2 Pob ysgol

Ar draws pob sector, roedd canran yr ysgolion wedi'u categoraiddio yn Radd A a B yng Ngham 2 wedi lleihau ychydig o 92.2% yn 2018 i 89.6% (361 ysgol) yn 2019 oherwydd bod nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd C iddynt wedi codi o 9 i 35 (8.7%), a bod nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd D iddynt wedi codi o 1 i 7 (1.7%). Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio fel Gradd A yn dal i godi efo 47.6% (192 ysgol) yn cael gradd A.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoraiddio yn Wyrdd neu'n Felyn yng Ngham 3 wedi lleihau o 91.0% yn 2018 i 88.1% (335 ysgol) yn 2019 gyda chanran yr ysgolion Melyngoch neu Goch yn codi 2.9% oherwydd 10 ysgol ychwanegol yn cael eu dyfarnu yn Felyngoch, ac 1 ychwanegol yn cael ei dosbarthu yn Goch. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio yn Goch wedi codi o 0.2% i 2.2% (9 ysgol), a'r ganran yn Wyrdd wedi codi eto i 40.4% (163 ysgol).

3.3 Cynradd

Roedd canran yr ysgolion wedi'u categoraiddio yn Radd A a B yng Ngham 2 wedi lleihau o 94.6% yn 2018 i 92.7% (319 ysgol), a roedd nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd C iddynt wedi codi 4 i 23, a nifer yr ysgolion y dyfarnwyd gradd D iddynt wedi codi 0 i 2. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 35.5% yn 2017, 44.1% yn 2018 i 51.2% (176 ysgol) yn 2019.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoraiddio yn Goch neu'n Felyngoch yng Ngham 3 wedi codi o 6.6% yn 2018 i 8.7% (30 ysgol) efo 7 ysgol ychwanegol wedi'u categoraiddio yn Felyngoch neu'n Goch. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio yn goch wedi codi o 0% yn 2018 i 0.6% yn 2019 oherwydd bod 2 ysgol wedi'u categoraiddio yn Goch. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 30.7% yn 2017, 38.1% yn 2018 i 43.0% (148 ysgol) yn 2019.

3.4 Uwchradd

Gostyngodd canran yr ysgolion sydd wedi'u categoraiddio yn Radd A neu B yng Ngham 2 o 75.9% (41 ysgol) yn 2018 i 64.8% (35 ysgol) yn 2019. Gostyngodd y ganran sydd wedi'i chategoriaddio yn D o 11.1% (6 ysgol) i 9.3% (5 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio fel Gradd A yn dal i godi o 22.2% yn 2017 i 25.9% (14 ysgol) yn 2019.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoraiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi codi o 25.9% (14 ysgol) yn 2018 i 37.0% (20 ysgol) yn 2019. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio yn goch wedi gostwng o 14.8% (8 ysgol) yn 2018 i 13.0% (7 ysgol) yn 2019. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio yn Wyrdd wedi aros yn gyson ar 24.1% (13 ysgol), a'r ganran wedi'i chategoriaddio yn Felyn wedi codi o 50% yn 2018 i 38.9%. O ganlyniad, mae'r ganran sydd wedi'i chategoriaddio yn Felyngoch wedi codi o 11.1% yn 2018 i 24.1%, a nifer yr ysgolion Melyngoch wedi codi o 7 i 13.

3.5 Arbennig

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoraiddio fel Gradd C a D yng Ngham Cam 2 wedi gostwng i 0. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio fel Gradd D ers 2016. Mae'r ganran a gategoreiddiwyd fel Gradd A wedi lleihau o 55.6% (5 ysgol) yn 2018 i 33.3% (3 ysgol) yn 2019. Mae 6 o'r 9 ysgol wedi'u categoraiddio yn Radd B, fyny o 3 yn 2018.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoraiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng i 0.0%, ac ni chafodd yr un ysgol arbennig ei rhoi mewn categori coch ers 2016. Mae'r ganran sydd wedi'i chategoreiddio yn wyrdd wedi lleihau o 44.% (4 ysgol) i 33.3% (3 ysgol). Mae 6 o'r 9 ysgol wedi'u categoraiddio yn Felyn, fyny o 4 yn 2018.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad GwE ar y broses Categoriaddio Cenedlaethol.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.
